# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 12/03/2024 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Gwynfor Jones | Rhian Sanson | Rhys Llewelyn | Alaw Llewelyn Roberts | Iwan Evans |
| Janice Evans | Carys Roberts | Pat Humphreys (Clerc) | | |

Croesawyd yr aelod newydd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
Mae'r Clerc wedi derbyn newyddion da iawn sef bod yr aelod o Edern sydd wedi bod yn wael iawn yn yr ysbyty yn ddiweddar yn gwella ac wedi cael ei symud i ward Moelwyn ac felly mae'r aelodau yn cynnig gyrru cerdyn i ddymuno gwellhad buan iddo.
Hefyd mae un o aelodau Nefyn wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar ac felly cynigiwyd gyrru cerdyn iddi hi hefyd.

1. **Ymddiheuriadau.**
   Gito Williams a Lleucu Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Rhian Sanson – eitem rhif 9 – cais am gyfraniad ariannol gan Cylch Meithrin a Mwy Nefyn,
   Mared Llywelyn Williams - eitem rhif 9 - cais am gyfraniad ariannol gan Theatr Bara Caws.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 13/02/2024
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gareth Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - **Adroddiad Archwilio Cymru - Cyfrifon 2022-2023 –** Clerc
     Mae'r Clerc wedi derbyn Ffurflen Flynyddol 2022-2023 yn ôl gan Archwilio Cymru sef yr archwilwyr allanol ynghŷd â'r adroddiad sydd yn tynnu sylw at dri pwynt sydd angen eu lliniaru ac fe aeth y clerc drwy'r pwyntiau i egluro beth sydd angen ei wneud. Bydd angen rhoi hysbyseb i fyny yn Siop Siarad ac ar wefan y Cyngor Tref i adael i'r cyhoedd wybod fod y cyfrifon ar gael i'w gweld am gyfnod o bythefnos a bod copi ar gael hefyd. Cytunwyd ar gost o £10 y copi fel yn yr hysbysebion blaenorol. Mae'r clerc am drefnu bod yr hysbysebion yn cael eu rhoi i fyny yr wythnos yma.
   - **Ebost Amgueddfa Forwrol Llŷn –** Penwythnos Porthi'r Penwaig
     Derbyniwyd ebost gan yr Amgueddfa Forwrol yn gofyn am help tuag at Penwythnos Porthi'r Penwaig i addurno'r Dref ac hefyd i dalu am logi'r Ganolfan.
     Penderfyniad: Pasiwyd i dalu am logi'r Ganolfan ac mae rhai o'r aelodau am fynd i'r cyfarfod nesaf yn Yr Heliwr i helpu hefo'r trefniadau. Mae gan CTN faneri a bynting dros ben ar ôl harddu'r ardal ar gyfer yr Eisteddfod y llynedd felly mae CTN am rhoi y rhain i'r Amgueddfa i'w defnyddio ar gyfer Penwythnos Porthi'r Penwaig.
     Cynnig: Mared Llywelyn Williams     Eilio: Gwynfor Jones
   - **Bin Sbwriel tu allan i Caffi Traeth Nefyn** – Gruffydd Williams

Mae'r bin sbwriel y tu allan i'r Caffi sydd wrth y Traeth yn Nefyn wedi diflannu felly mae'r Clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn wrthynt roi un arall yno cyn gynted a phosibl.

5. **Archebu Blodau –** Caren Jones
Nid yw'r aelod oedd eisiau trafod y mater yma yn bresnnol heno ond eglurodd y clerc ei bod yn iawn i unrhyw un o'r aelodau fynd i nôl blodau o Tyddyn Sachau a'u rhoi ar gyfrif CTN, hefyd mae'n bwysig fod yr aelodau yn dweud wrth y clerc os ydynt wedi rhoi blodau ar y cyfrif er mwyn i'r clerc gael eu dyrannu i'r gwahanol bentrefi. Mae gan Nefyn £1,500.00 a Morfa Nefyn ac Edern £750.00 yr un i wario yn unol a beth sydd ar y gyllideb.

6. **Lôn Mynwent Nefyn –** Gruffydd Williams
Mae tyllau ofnadwy wedi ymddangos unwaith eto ar Lôn mynwent Nefyn felly mae'n rhaid ei thrwsio. Fe fydd rhaid cael rhywun yno cyn gynted a phosibl i lenwi'r tyllau dros dro a cafwyd cynnig fod yr Is-bwyllgor mynwentydd yn cyfarfod cyn gynted a phosibl i drafod datrusiad hir dymor.
Penderfyniad: y clerc i drefnu fod contractwr lleol yn mynd yno i lenwi'r tyllau dros dro ac hefyd trefnu ymweliad safle gan yr Is-bwyllgor Mynwentydd.
Cynnig: Gwynfor Jones   Eilio: Carys Roberts

7. **Morlais, Nefyn –** Dargyfeirio'r llwybr troed
Derbyniwyd ebost gan Colin Rock Engineering yn gofyn barn CTN ar gau y llwybr troed gan eu bod yn gwneud gwaith ar y clogwyn uwchben Morlais ar y traeth yn Nefyn, maent hefyd wedi anfon cynllun yn dangos bod modd dargyfeirio'r llwybr am gyfnod byr o amser ac yn gofyn os yw aelodau CTN yn hapus hefo hyn.
Penderfyniad: mae'r aelodau yn hapus hefo'r dargyfeiriad er nad yw yn addas i gadair olwyn ond mae'n rhaid gwneud y gwaith angenrheidiol.
Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Arfon Hughes
Trafodwyd hefyd y dargyfeiriad i lwybr Penrallt er mwyn sefydlogi'r clogwyni yn y fan honno a pasiwyd i hysbysebu'r cyhoedd o'r ddau dargyfeiriad yma, cyn i'r gwaith ddechrau, yn y wasg ac ar 'facebook'.

8. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    - **Ebost Tafarn yr Heliwr –** Lleu Llŷn / Yr Heliwr
    Penderfyniad: mae'r aelodau yn hapus i'r digwyddiad yma gyd-fynd hefo noson goleuo'r goeden a fflot sion corn y rotari.
    - **Ebost David Entwistle –** cais am ad-daliad offer codi sbwriel
    Penderfyniad: pasiwyd i dalu am yr offer.
    Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Rhian Sanson
    - **Ebost Penny Petroleum –** Siop Pitstop Morfa Nefyn
    Penderfyniad: ei roi ar agenda mis nesaf er mwyn siarad hefo staff y siop i gael y wybodaeth gywir ganddynt.

9. **Ceisiadau am gyfraniad ariannol:**
    1. **Cylch Meithrin Edern –** ail-gyflwyniad o bwyllgor mis diwethaf
    Penderfyniad: gofyn am fwy o wybodaeth a'i drafod ar ôl derbyn y wybodaeth yma.

2. **Cylch Meithrin a Mwy Nefyn –** ail-gyflwyniad o bwyllgor mis diwethaf.
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £1,000.00.
   Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Gareth Jones
3. **Radio Ysbyty Gwynedd**
   Penderfyniad: pasiwyd i beidio cyfrannu.
4. **Ambiwlans Awyr Cymru**
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £500.00.
   Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Janice Evans
5. **Urdd Gobaith Cymru**
   Penderfyniad: pasiwyd i beidio cyfrannu.
6. **Theatr Bara Caws**
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £150.00.
   Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Rhian Sanson
7. **SSAFA – Elusen y Lluoedd Arfog**
   Penderfyniad: pasiwyd i beidio cyfrannu.
8. **Cronfa Cyfle i Bawb Yr Urdd**
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £500.00.
   Cynnig: Catrin Roberts   Eilio: Iwan Evans
9. **Dawns i Bawb**
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £150.00.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams   Eilio: Gareth Jones
10. **Sioe Frenhinol Caernarfon 2025**
    Penderfyniad: trafod y cais y flwyddyn nesaf.
11. **Marie Curie**
    Penderfyniad: pasiwyd i beidio cyfrannu.
12. **Ffermwyr Ifanc Eryri**
    Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £400.00.
    Cynnig: Iwan Evans   Eilio: Gareth Jones
13. **Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024**
    Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £150.00.
    Cynnig: Rhian Sanson   Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**10. Ceisiadau Cynllunio**

**C24/0131/42/DT –** Hafan Lôn Bridin, Morfa Nefyn – gwaith allanol gan gynnwys adfer ac ymestyn ardal teras/patio, codi wal newydd ynghŷd ag amrywiol addasiadau eraill**.**
Penderfyniad: Gwrthod – y cynllun ddim yn gweddu i'r ardal.
Cynnig: Alaw Llewelyn Roberts   Eilio: Catrin Roberts

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

**11. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £ 1310.30 (taliad BACS)
- John Gwynfor Jones – agor bedd Nicholas Phillips - £450.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £57.80
- Nefyn Foods Ltd – rent Siop Siarad - £780.00
- D M Parry – pumed taliad mynwent Nefyn - £990.00
- Un Llais Cymru – aelodaeth 2024-2025 - £615.00
- HMRC – PAYE Mis 11 - £308.25
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Chwefror - £169.01

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Gwynfor Jones

**12. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ifan Hughes – angladd Malcolm John Thomas - £865.00
- Ifan Hughes – angladd Roy Jones - £1250.00
- Roberts & Owen – angladd John Wynne Humphreys - £490.00

Mae'r aelodau yn gwrthwynebu'r toriadau i amseroedd agor Llyfrgell Nefyn ac mae'r clerc am gyfleu hynny i Cyngor Gwynedd.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com